

# Taflen Ffeithiau

## Llety â Chymorth a Cefnogaeth yn ôl yr Angen

**Beth os oes gennyf anghenion cefnogaeth ac fy mod yn teimlo y byddaf yn cael trafferth cynnal fy nhenantiaeth fy hun?**

Mae nifer o brosiectau llety â chymorth. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y prosiectau hyn mae'n rhaid i chi fod dros 16 oed ac angen cefnogaeth yn ymwneud â thenantiaeth.

Nid oes yn rhaid i chi gael cysylltiad lleol gyda Chonwy i gael mynediad at rai o'r cynlluniau.

Coed Pella,  
Conway Road,  
Bae Colwyn.  
LL29 7AZ  
0300 1240040



## Cam-drin domestig

**Gwasanaeth Cam-drin Domestig Aberconwy** – yn darparu lloches i ferched a'u plant sy'n profi camdriniaeth corfforol, meddyliol, emosiynol, ariannol neu rywiol. Mae Cefnogaeth yn ôl yr Angen hefyd ar gael ar gyfer dynion, merched a phlant yn y gymuned leol sy'n methu neu nad ydynt yn dymuno derbyn llety lloches. Derbynnir atgyfeiriadau gan unrhyw ffynhonnell ac maent yn cynnig mynediad uniongyrchol brys 24 awr.

**Hafan Cymru** - yn darparu tai â chymorth dros dro ar gyfer merched a'u plant sydd wedi profi camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol. Derbynnir mynediad drwy Lwybr Sengl Cefnogi Pobl a gall eich Swyddog Atal Digartrefedd eich atgyfeirio os ydych chi'n gymwys. Maent hefyd yn darparu cefnogaeth yn ôl yr angen i ddynion sydd wedi profi camdriniaeth.

**Uned Ddiogelwch Cam-Drin Domestig (DASU) (Cymorth i Fenywod Cymru gynt)** – yn darparu lloches i ferched a'u plant sy'n profi camdriniaeth gorfforol, meddyliol, emosiynol, ariannol neu rywiol. Derbynnir atgyfeiriadau gan unrhyw ffynhonnell a gweithredir rota 24 awr i sicrhau mynediad uniongyrchol mewn argyfwng.

## Yn ddigartref / Mewn perygl o fod yn ddigartref

**Sanctuary Trust** – yn darparu cefnogaeth yn ymwneud â thai i gynorthwyo dynion diamddiffyn i fynd i'r afael â'r materion sydd wedi achosi iddynt fod yn ddigartref. Derbynnir mynediad drwy Lwybr Sengl Cefnogi Pobl a gall eich Swyddog Atal Digartrefedd eich atgyfeirio os ydych chi'n gymwys.

**Noddfa** - yn darparu tai â chymorth dros dro ar gyfer pobl sengl a chyplau 16 oed a hŷn sydd yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref ac mae ganddynt anghenion cefnogaeth. Derbynnir mynediad drwy Lwybr Sengl Cefnogi Pobl a gall eich Swyddog Atal Digartrefedd eich atgyfeirio os ydych chi'n gymwys.

## Anableddau Integredig

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy – Anableddau Dysgu a Chorfforol** – Derbynnir atgyfeiriadau gan y tîm ar gyfer yr unigolyn i'w hasesu yn unol ag anghenion cefnogaeth / tai, ac mae'r asesiadau yn ystyried y meini prawf cymhwyso ar gyfer cymorth gan wasanaethau cymdeithasol statudol, gan ganolbwyntio ar y rhai sy'n debygol o ddisgyn i mewn ac allan o wasanaethau statudol ar adegau anodd neu argyfwng. Mae'r gefnogaeth ychwanegol yn allweddol er mwyn i bobl gynnal ac atgyfnerthu'r sgiliau byw annibynnol y maent wedi'u derbyn i fyw fel dinasyddion cyfartal yn y gymuned ac atal argyfwng digartrefedd.

Darperir cefnogaeth yn ôl yr angen i bobl ddiamddiffyn gydag anabledd corfforol yn eu cartrefi eu hunain gan ystod o ddarparwyr. Mae'r gefnogaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu a chynnal y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fyw mor annibynnol â phosibl yn y gymuned, yn cynorthwyo unigolion i gynnal eu tenantiaethau / cartrefi ac atal y posibilrwydd o gael eu derbyn i ofal preswyl.



## Iechyd Meddwl

**Darpariaeth Iechyd Meddwl Tai Gogledd Cymru** – Mae'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu i gleientiaid sy'n gwella neu'n dioddef o broblem iechyd meddwl hirdymor. Mae'n rhaid i bob cleient gael gweithiwr allweddol (CPN neu Weithiwr Cymdeithasol) a phegyn gofal ar waith cyn cael eu derbyn i'r prosiect. Derbynnir mynediad drwy Lwybr Sengl Cefnogi Pobl a gall eich Swyddog Atal Digartrefedd eich atgyfeirio os ydych chi'n gymwys.

**Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Iechyd Meddwl Oedolion (Tîm Pobl Ddiamddiffyn)** - Prosiectau Tai â chymorth; Seashells a Kickstart a nifer o wasanaethau cefnogaeth yn ôl yr angen gyda Landlordiaid cymeradwy, yn darparu llety a chefnogaeth i bobl ddiartref 18 oed neu hŷn gydag anghenion iechyd meddwl nad ydynt yn derbyn gwasanaethau iechyd meddwl a chanddynt anghenion cefnogaeth lefel uchel.

## Materion Troseddu

**NACRO** - y prif grŵp cleientiaid yw troseddwr neu rai sydd mewn perygl o droseddu. Mae 4 gofod llety ar gael ar gyfer oedolion diammddiffyn o fewn Tai â Chymorth a 4 cleient cefnogaeth yn ôl yr angen yn cael eu cefnogi yn eu llety eu hunain yng Nghonwy. Derbynnir mynediad drwy Lwybr Sengl Cefnogi Pobl a gall eich Swyddog Atal Digartrefedd eich atgyfeirio os ydych chi'n gymwys.

## Materion Camddefnyddio Sylweddau

**CAIS- Cefnogaeth yn ôl yr Angen** – Mae hwn yn becyn cefnogaeth yn ôl yr angen cyfannol gan gynnwys cefnogaeth yn ymwneud â thai a nodir drwy asesiad a chynllunio cefnogaeth i ddefnyddwyr gwasanaeth ar adegau i ddiwallu'r anghenion unigol. Nod y prosiect yw cynnig cefnogaeth i unigolion sy'n byw yn Sir Conwy sy'n cyflwyno eu hunain fel unigolion digartref neu mewn perygl o fod yn ddiartref a chanddynt hanes o gamddefnyddio sylweddau. Derbynnir mynediad drwy Lwybr Sengl Cefnogi Pobl a gall eich Swyddog Atal Digartrefedd eich atgyfeirio os ydych chi'n gymwys.

**NACRO – Doorstop** - Yn darparu cefnogaeth yn ymwneud â thai dros dro i bobl gyda phroblemau camddefnyddio sylweddau, sydd wedi ymrwmo i fynd i'r afael â'u dibyniaeth ac angen cefnogaeth i gynnal eu tenantiaeth a byw'n annibynnol. Mae gan y prosiect 6 uned tai dros dro a bydd yn cynorthwyo unigolion i symud ymlaen i lety parhaol ar ôl iddynt gwblhau rhaglen o gefnogaeth. Mae'r prosiect hwn yn gweithio mewn partneriaeth gyda NWA. Derbynnir mynediad drwy Lwybr Sengl Cefnogi Pobl a gall eich Swyddog Atal Digartrefedd eich atgyfeirio os ydych chi'n gymwys.

**Cymdeithas Tai Clwyd Alyn – Norfolk House** - Prosiect tai â chymorth yn seiliedig ar ymatal, bydd yr holl wasanaethau digartrefedd / camddefnyddio sylweddau yn y rhanbarth yn atgyfeirio cleientiaid i'r prosiect. Lloffydd sengl gyda chyfleusterau en-suite a chyfleusterau anabl. Derbynnir mynediad drwy Lwybr Sengl Cefnogi Pobl a gall eich Swyddog Atal Digartrefedd eich atgyfeirio os ydych chi'n gymwys.

## Pobl Ifanc Diamddiffyn

**Hafan Cymru – Tai â Chymorth** – Tai â chymorth a chefnogaeth yn ôl yr angen ar gyfer merched ifanc 16 oed a hŷn. Prosiectau yn y mwyafrif o ardaloedd awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Derbynnir mynediad drwy Lwybr Sengl Cefnogi Pobl a gall eich Swyddog Atal Digartrefedd eich atgyfeirio os ydych chi'n gymwys.



**Tai Clwyd Alyn – Isallt** – yn darparu 12 uned o lety â chymorth a 13 uned o gefnogaeth yn ôl yr angen (symud ymlaen), mae Isallt yn ceisio darparu cefnogaeth i bobl sengl sydd rhwng 16 a 25 oed, sy'n ddigartref ac yn ddiamddiffyn ac angen cefnogaeth a phobl ifanc sy'n gadael gofal. Derbynnir mynediad drwy Lwybr Sengl Cefnogi Pobl a gall eich Swyddog Atal Digartrefedd eich atgyfeirio os ydych chi'n gymwys.

## Pobl Hŷn Diamddiffyn

**Abbeyfield Llanrwst** – Yn derbyn hunan-atgyfeiriadau ac atgyfeiriadau gan wasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill. Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn 55 mlwydd oed a hŷn. Yn cynnig amgylchedd diogel ar gyfer byw yn annibynnol tra'n darparu 2 bryd yn ddyddiol yn yr ystafell fwyta gymunedol.

**Abbeyfield Wales Tŷ Llandudno** - Yn derbyn hunan-atgyfeiriadau ac atgyfeiriadau gan y gwasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau eraill, mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn 55 oed a hŷn. Darperir 2 bryd yn yr ystafell fwyta gymunedol.

**Gwasanaeth Byw yn Annibynnol Cartrefi Conwy (ILS)** - Mae gwasanaeth ILS ar gael i denantiaid Cartrefi Conwy. Derbynnir atgyfeiriadau drwy bartneriaid allanol, cydweithwyr mewnol a hunanatyfeiriad.

**Cymdeithas Tai Clwyd Alyn** – 1 ystafell wely hunangynhwysol ar gyfer 1-2 o bobl dros 55 oed / Teleofal gyda warden, cefnogaeth lefel isel o fewn tai lloches.

**CBSC - Pobl Hŷn** - Darperir cefnogaeth yn ôl yr angen i bobl hŷn diamddiffyn yn eu cartrefi eu hunain gan ystod o ddarparwyr. Mae'r gefnogaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu a chynnal y sgiliau sydd eu hangen i fyw mor annibynnol â phosibl. Mae'r gefnogaeth galluogi yn aml yn ategu a gwella pecyn gofal.

**Tai Gogledd Cymru - Taverners Court** - Tai lloches, yn darparu llety hunangynhwysol gyda chyfleuster llinell ofal. Mae pobl hŷn yn cael mynediad at dai a gwasanaethau sy'n cefnogi eu hanghenion ac yn hyrwyddo annibyniaeth.

**Wales & West Housing** - dros 55 mlwydd oed gyda thystiolaeth feddygol neu dros 60 mlwydd oed, rhaid bod yn barod i symud i mewn, ar y pwynt hwn bydd ffurflen meini prawf tai ymddeol yn cael ei llenwi i ychwanegu'r unigolyn at y rhestr aros.

## Cyffredinol

**CBSC – Cynllun Landlord Cymeradwy** – Unedau o lety â chymorth gan gynnwys llety a rennir, fflatiau a thai lle bo'r landlord/ staff yn darparu cefnogaeth. Nod y Prosiect Landlord Cymeradwy yw darparu cefnogaeth er mwyn galluogi tenantiaid i dderbyn y sgiliau byw priodol sydd eu hangen i gynnal eu tenantiaeth, symud ymlaen i fyw yn annibynnol neu atal pobl rhag mynd yn ôl i fyw mewn sefydliad. Derbynnir atgyfeiriadau ar gyfer unigolion 16 oed a hŷn sydd angen cymorth tenantiaeth.

**Tai Gogledd Cymru – Cynllun Gwasgaredig** – Yn darparu cefnogaeth ar draws eiddo Tai Gogledd Cymru yng Nghonwy ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth tai â chymorth a thenantiaid anghenion cyffredinol. Mae'r gefnogaeth ar gael i ddynion a merched gydag ystod o anghenion cefnogaeth a chefnidiroedd. Gwneir atgyfeiriadau gan yr ymgeisydd drwy ffurflen gais gyffredinol Tai Gogledd Cymru i gael mynediad at unedau tai â chymorth. Gwneir atgyfeiriadau cefnogaeth yn ôl yr angen ar gyfer tenantiaid anghenion cyffredinol gan y Swyddog Tai Lleol i Reolwr Cynllun Gwasgaredig Conwy.



**NACRO – Gwasanaeth Adsefydlu Conwy** – Mae'r gwasanaeth yn darparu cefnogaeth i 25 o bobl 16 oed a hŷn ar draws Bwrdeistref Sirol Conwy, sydd angen cefnogaeth i gael a chadw llety priodol annibynnol. Derbynnir mynediad drwy Lwybr Sengl Cefnogi Pobl a gall eich Swyddog Atal Digartrefedd eich atgyfeirio os ydych chi'n gymwys.

## A oes unrhyw ddewisiadau eraill?

Os nad ydych eisiau cael eich asesu gan Swyddog Atal Digartrefedd, dyma rai dewisiadau eraill:

- **Tŷ Golau** – Lloches Mynediad Uniongyrchol, Adeiladau Clwyd, Clwyd Street, y Rhyl. ☎01745 345900. Mae angen i chi gyflwyno eich hun erbyn 6:45pm i geisio lloches. Er mwyn bod yn gymwys mae'n rhaid i chi fod yn ddigartref, yn 18+ oed ac yn meddu ar ryw fath o ID neu Rif Yswiriant Gwladol a bod gennych gysylltiad gyda Sir Ddinbych. Os oes llai o alw am welyau efallai y byddant yn eich ystyried heb gysylltiad lleol.
- **Tŷ Nos** – Lloches Nos Wrecsam, yn Hen Ganolfan Gymunedol Maes y Dre, Ffordd Holt, Wrecsam, ☎ (01978) 291274 rhwng 8p.m – 9 a.m. neu (01978) 262 222 (ymholiadau yn ystod y dydd)
- **Hostel Pendinas** ym Mangor yn darparu cefnogaeth a llety ar gyfer wyth o bobl ddigartref diamddiffyn sydd ag anghenion cymhleth, gan ddarparu cefnogaeth i gynorthwyo pobl ddiamddiffyn i fyw yn annibynnol ac i symud ymlaen i'w llety eu hunain.
- **Hostel y Santes Fair** yn darparu cefnogaeth i bobl ddiamddiffyn i fyw yn annibynnol a symud ymlaen i'w llety eu hunain. Mae Hostel y Santes Fair yn Hostel Mynediad Uniongyrchol yn darparu llety i 13 o bobl digartref mewn 2 adeilad ym Mangor
- Ewch i wefan Homeless UK i gael gwybodaeth am dros 9,000 o wasanaethau – hostelau, canolfannau dydd, a gwasanaethau cyngor a chefnogaeth ar gyfer pobl ddigartref neu rai sy'n wynebu digartrefedd [www.homelessuk.org](http://www.homelessuk.org).

### Y Samariaid

**Ymyrraeth Argyfwng** - Mae'r **Samariaid** ar gael 24 awr y dydd, bob dydd o'r flwyddyn, yn darparu lle diogel i unrhyw un sy'n methu ymdopi.  
☎ 116 123  
🌐 <http://www.samaritans.org> neu anfonwch e-bost at [jo@samaritans.org](mailto:jo@samaritans.org)

### Shelter

Cymru  
☎ 01792 469400  
🌐 [www.sheltercymru.org.uk](http://www.sheltercymru.org.uk)  
📍 Uned 5, Adeilad yr Orsaf, Stryd Bodfor, y Rhyl LL18 1AT



Cyngor ar Bopeth

☎ 0344 477 2020  
🌐 [www.citizensadvice.org.uk](http://www.citizensadvice.org.uk)  
📍 Eryl Wen, Eryl Place, Llandudno, Conwy LL30 2TX

Fersywn 2 Ionawr 2020





Dewis Cymru yw'r lle i gael gwybodaeth am les yng Nghymru.

Os hoffech wybodaeth all eich helpu i feddwl am yr hyn sy'n bwysig i chi, ynghyd â gwybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau lleol a all helpu, gallwch fynd i wefan Dewis Cymru ar [www.dewis.wales](http://www.dewis.wales).

Gall y wefan eich cynorthwyo i gael mynediad at wasanaethau cefnogaeth lleol a chanfod gwybodaeth a chyngor. Mae'n bwynt mynediad sengl, clir a dibynadwy.

This document is also available in English.



Fersywn 2 Ionawr 2020